



Adran Gwaith  
a Phensiynau

# Cael help gan Daliad Annibyniaeth Personol (PIP)

Hawdd i'w  
Ddarllen



# Cynnwys

1

**PIP**

**Cyflwyniad**

Tudalen 4

2



**Cael help gan Daliad  
Annibyniaeth Personol**

Tudalen 8

3



**Beth rydym yn ei olygu  
gan weithgareddau  
bob dydd**

Tudalen 10

4



**Gwneud cais am PIP pan  
fyddwch yn agosáu at  
ddiwedd eich oes**

Tudalen 13

# Cynnwys

5



**Mathau eraill o gymorth**

Tudalen 14

# 1

## Cyflwyniad



Adran Gwaith  
a Phensiynau

Mae Taliad Annibyniaeth Personol yn fudd-dal gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.



Mae'n helpu gyda rhai o'r costau ychwanegol y mae'n rhaid i chi eu talu pan fydd gennych afiechyd tymor hir neu anabledd.

# PIP

Weithiau gelwir Taliad Annibyniaeth Personol yn PIP.



# PIP



Mae'r daflen hon yn gyflwyniad i PIP.

Am fwy o daflenni Hawdd ei Ddarllen, ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

Chwiliwch am **Easy Read PIP**.

## Pwy all wneud cais am PIP

# 16+

Mae'n rhaid i chi fod yn 16 oed neu drosodd i wneud cais am PIP.

Ni allwch wneud cais am PIP os ydych wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.



Gallwch wneud cais am fudd-daliadau eraill pan rydych yn cael PIP.

# PIP



Gallwch wneud cais am PIP o hyd os:

- Ydych mewn gwaith neu allan o waith
- Oes gennych arian wedi'i gynilo yn y banc
- Ydych mewn hyfforddiant neu addysg (fel ysgol neu goleg).



Mae faint o arian a gewch yn dibynnu ar sut mae eich cyflwr iechyd yn eich atal rhag gwneud gweithgareddau bob dydd.



Cyflwr iechyd yw salwch neu broblem a all effeithio eich iechyd.



Gall cyflwr iechyd effeithio eich meddwl neu deimladau.

Rydym yn galw hyn yn gyflwr iechyd meddwl.



Gall cyflwr iechyd effeithio eich corff.

Rydym yn galw hyn yn gyflwr iechyd corfforol.

# 2

## Cael help gan Daliad Annibyniaeth Personol

Gall PIP eich helpu chi os:



Rydych yn ei chael yn anodd i wneud gweithgareddau bob dydd.



Rydych yn ei chael yn anodd i fynd allan ac o gwmpas ar ben eich hunain.

**12**  
**mis**

Rydych yn disgwyl i'r anawsterau bara am o leiaf 12 mis o'r adeg y gwnaethant ddechrau.



**Os bydd eich anghenion cymorth yn newid ac nad ydych yn siŵr a ddylech wneud cais.**



Os nad ydych yn siŵr a ddylech wneud cais, oherwydd bod faint o gymorth rydych ei angen yn newid, dylech wneud cais o hyd.



Byddwn yn ystyried y newidiadau hyn yn ystod eich cais.

# 3

## Beth rydym yn ei olygu drwy weithgareddau bob dydd

**PIP**



Gallai eich cyflwr iechyd neu anabledd olygu:

- Eich bod angen cymorth gyda gweithgareddau bob dydd
- Efallai na allwch wneud rhai gweithgareddau o gwbl.



Efallai eich bod angen cymorth gan rywun:

- I'ch helpu i wneud tasg
- I fod gyda chi a'ch atgoffa i wneud tasg.

**Gallai enghreifftiau o weithgareddau bob dydd fod yn:**



Gwneud pryd o fwyd neu fwyta.



Darllen rhywbeth fel papur newydd  
neu lyfr.



Siarad â phobl.



Cyfarfod pobl a threulio amser  
gyda hwy.



Ymolchi, cael bath neu gawod.



Mynd allan ac o gwmpas.

# 4

## Gwneud cais am PIP pan fyddwch yn agosáu at ddiwedd eich oes



Mae dod at ddiwedd eich oes yn golygu y gallai fod gennych lai na 12 mis i fyw.

**12**  
mis

Gallwch gael PIP yn llawer cynt os oes gennych lai na 12 mis i fyw.



Gallwch ofyn i feddyg neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol lenwi ffurflen SR1 i helpu gyda'ch cais.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: [www.gov.uk/taliad-annibyniaeth-personol-pip/gwneud-cais-am-pip-os-ydych-yn-derfynol-wael](http://www.gov.uk/taliad-annibyniaeth-personol-pip/gwneud-cais-am-pip-os-ydych-yn-derfynol-wael)



# 5

## Mathau eraill o gymorth



Efallai y byddwch yn gallu cael Credyd Cynhwysol os:

- Rydych allan o waith
- Rydych mewn gwaith ac ar enillion isel.



Gall Credyd Cynhwysol eich helpu hefyd gyda rhai costau tai.

Bydd rhai pobl angen gwneud cais am Fudd-dal Tai o hyd yn lle Credyd Cynhwysol.

Am fwy o wybodaeth, ewch i [www.gov.uk/budd-dal-tai](http://www.gov.uk/budd-dal-tai)



Efallai y gallwch gael help gyda Threth Cyngor.



Efallai y gallwch gael grant Mynediad at Waith.



Gall grant Mynediad at Waith eich helpu i dalu am newidiadau sydd angen yn eich gweithle i'ch helpu i wneud eich swydd.


Am fwy o wybodaeth ynglŷn â Mynediad at Waith, ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

Chwiliwch am **Easy Read Access to Work**.



Os bydd rhywun yn gofalu amdanoch, efallai y gallant gael Lwfans Gofalwr.

I gael mwy o wybodaeth am Lwfans Gofalwr, ewch i [www.gov.uk/lwfans-gofalwr](http://www.gov.uk/lwfans-gofalwr)



Os oes gennych broblemau ariannol, gallwch gysylltu â'ch:

- Swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol
- Swyddfa Cyngor leol
- Grwpiau help a chymorth lleol.

Am fwy o wybodaeth am Daliad Annibyniaeth Personol, ewch i [www.gov.uk/taliad-annibyniaeth-personol-pip](http://www.gov.uk/taliad-annibyniaeth-personol-pip)

I gael mwy o wybodaeth am y budd-daliadau, efallai y gallwch wneud cais amdanynt, ewch i [www.gov.uk/browse/disabilities](http://www.gov.uk/browse/disabilities)

I ddod o hyd i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol, ewch i [find-your-nearest-jobcentre.dwp.gov.uk](http://find-your-nearest-jobcentre.dwp.gov.uk)

I ddod o hyd i'ch swyddfa cyngor lleol neu grwpiau help a chymorth, ewch i [www.gov.uk/find-local-council](http://www.gov.uk/find-local-council)

Am help gyda phroblemau arian, ewch i [www.moneyhelper.org.uk/cy](http://www.moneyhelper.org.uk/cy)